Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

# Cyflwr y Ffyrdd yng Nghymru: Cystadleuaeth Ffotograffiaeth. Telerau ac amodau

Mehefin 2018

## Telerau ac Amodau

Cyn cyflwyno eich lluniau gorau, dylech dreulio rhai munudau yn darllen ein telerau ac amodau ("Telerau"). Pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais, fe ystyrir eich bod yn derbyn y Telerau hyn.

Cyfeiriadau at "chi" neu "eich" neu debyg yw'r cystadleuydd. Cyfeiriadau at "ni", "ein" neu debyg yw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA. Ni yw hyrwyddwr y gystadleuaeth hon.

### Telerau ac Amodau

1. Enw'r gystadleuaeth yw "Cyflwr y Ffyrdd yng Nghymru" ac mae'n agored i bob aelod o'r cyhoedd sy'n 18 oed neu'n hŷn gan gynnwys ffotograffwyr proffesiynol.

2. Mae'n amod o ymgeisio eich bod yn derbyn y Telerau fel rhai terfynol a'ch bod yn cytuno i ddilyn y Telerau hyn. Bydd cyflwyno llun yn golygu eich bod yn derbyn y Telerau.

3. Bydd panel o feirniaid yn barnu'r ceisiadau. Mae penderfyniad y beirniaid (sy'n gweithredu'n rhesymol) yn derfynol ac ni fyddwn yn ymgymryd ag unrhyw ohebiaeth na thrafodaeth. Cyhoeddir yr enillydd ar gyfrif Twitter y

Pwyllgor, gwefan y Cynulliad Cenedlaethol a thrwy dudalen Twitter a Facebook y Cynulliad ar 23 Gorffennaf.

4. Dylid cyflwyno lluniau yn dangos cyflwr y ffyrdd yng Nghymru dros e-bost i seneddallgymorth@cynulliad.cymru Rhaid i ffotograffau a gyflwynir fod yn gyflawn a rhaid hefyd cynnwys eich enw a chyfeiriad e-bost ynghyd â'r dyddiad y tynnwyd y llun a lleoliad y llun a gyflwynir.

5. Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau yn y post na gan bobl o dan 18 oed. Rydym yn cadw'r hawl i ofyn i chi gadarnhau eich oedran.

6. Byddwn ond yn derbyn lluniau o ffyrdd wedi'u mabwysiadu yng Nghymru. Ni fyddwn yn derbyn ffyrdd heb eu mabwysiadu na ffyrdd preifat.

7. Rhaid i ffeiliau lluniau fod yn 300 dpi ac yn ddim mwy na 10MB a dylent fod o leiaf 2600 x 2000 picsel ar fformat JPEG, PNG neu TIFF. Ni dderbynnir ceisiadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.

8. Rhaid i bob llun a gyflwynir fod yn ddarn gwaith gwreiddiol gennych chi ac ni ddylent fod wedi'u cyhoeddi mewn mannau eraill nac wedi ennill gwobr am unrhyw gystadleuaeth ffotograffig arall. Ni ddylai ceisiadau dorri unrhyw hawliau trydydd parti, a'ch cyfrifoldeb chi yw sicrhau nad yw unrhyw luniau a gyflwynir gennych yn torri hawliau unrhyw drydydd parti nac unrhyw gyfreithiau. Wrth ystyried ein bod yn ystyried y llun rydych wedi'i gyflwyno i ni:

    - rydych chi'n gwarantu:

        - mai'r llun rydych chi wedi'i gyflwyno yw eich gwaith eich hun ac mae gennych hawliau eiddo deallusol ynddo;

        - nid oes cytundebau sy'n gwrthdaro ar waith sy'n cyfyngu ar y defnydd o'r llun;

    - byddwch yn ein indemnio i'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith mewn cysylltiad ag unrhyw hawl a wneir gan unrhyw drydydd parti sy'n ymwneud â'r llun rydych wedi'i gyflwyno.

9. Unwaith y byddwch wedi cyflwyno llun, ni allwch ei dynnu'n ôl oni bai ein bod yn cydsynio i'r achos o dynnu'n ôl.

10. Ni fyddwn yn derbyn lluniau lle mae person neu blât rhif cerbyd yn weladwy, neu sy'n dangos gwaith a allai fod yn destun hawliau eiddo deallusol sy'n berchen gan drydydd partïon (fel cerfluniau a phaentiadau).

11. Ni ddylid cyflwyno lluniau sydd â chynnwys rhywiol, noethni, anweddus, treisgar neu unrhyw gynnwys annymunol neu amhriodol eraill, fel y pennir gennym ni yn ôl ein disgresiwn llawn, ac ni fyddant yn cael eu derbyn.

12. Caniateir mân addasiadau digidol i luniau a gyflwynir, fel tocio, lefelau, cromliniau, cyferbyniad, lliw, dirlenwad a miniogi. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r llun fod yn gynrychiolaeth ffyddlon o'r olygfa wreiddiol. Ni ddylech ddefnyddio amlygiad cyfansawdd na lluosog.

13. Byddwch yn cadw'r hawliau o ran pob llun a gyflwynir ar gyfer y gystadleuaeth hon, ond wrth ystyried ein hystyriaeth y llun rydych wedi'i gyflwyno ac fel amod o ymgeisio yn y gystadleuaeth, rydych yn cytuno i roi trwydded anghyfyngedig, yn rhydd rhag breindal, byd-eang, ailddefnyddiadwy am gyfnod llawn unrhyw hawliau eiddo deallusol yn y cais sy'n ein galluogi i gynnwys unrhyw un neu bob un o'r lluniau a gyflwynwyd yn unrhyw un o'n cyhoeddiadau, gwefannau a/neu mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo ac i ddefnyddio, arddangos, cyhoeddi, trosglwyddo, copïo, golygu, storio, ailfformadu ac isdrwyddedu'r cais i drydydd partïon.

14. Gallai ddigwyddiadau godi sy'n golygu y bydd y gystadleuaeth ei hun neu'r gwaith o ddyfarnu'r gwobrau yn amhosibl am resymau y tu hwnt i'n rheolaeth rhesymol ac, yn unol â hynny, gallwn, yn unol â'n disgresiwn llwyr, amrywio neu ddiwygio'r gystadleuaeth a byddwch chi'n cytuno na fydd unrhyw atebolrwydd yn cael ei osod arnom ni o ganlyniad i hynny.

15. Bydd manylion am yr enillwyr a'u cynigion yn cael eu defnyddio gennym ni at ddibenion cyhoeddusrwydd yn unol â'n hysbysiad preifatrwydd.

16. Ni dderbynnir ceisiadau cyn 00:01 ar Ddydd Iau 7 Mehefin ar nac ar ôl 12:01 ar Ddydd Llun 13 Gorffennaf 2018.

17. Ni fyddwn yn derbyn cyfrifoldeb dros geisiadau sydd wedi'u colli, eu camosod, eu difrodi neu eu hoedi wrth eu trosglwyddo, waeth beth fo'r achos, er enghraifft, o ganlyniad i unrhyw fethiant offer, diffygion technegol, systemau, lloeren, rhwydwaith, gweinyddwr, methiant caledwedd neu feddalwedd cyfrifiadurol o unrhyw fath, ac ni fyddwn yn derbyn prawf trosglwyddo fel prawf o gais i'r gystadleuaeth.

18. Wrth gyflwyno'ch llun, rydych yn gwarantu nad yw'r llun yn cynnwys unrhyw gynnwys maleisus na data cudd.

19. Ni dderbynnir ceisiadau hwyr, annarllenadwy, anghyflawn, wedi'u difwyno na rhai llygredig.

20. Y cais buddugol fydd yw'r llun gwreiddiol a ddyfernir sydd fwyaf apelgar yn weladwy sy'n dangos y thema 'Cyflwr y Ffyrdd yng Nghymru'.

21. Bydd y lluniau gorau yn rhan o arddangosfa gyhoeddus a byddant yn cael eu harddangos yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghaerdydd. Bydd y llun buddugol hefyd yn cael ei ddangos ar glawr adroddiad a gyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("Adroddiad"). Bydd yr enillydd a'r rhai sydd wedi dod yn agos i'r brig yn cael print arddangosfa o'u llun a bydd yr enillydd yn cael eu gwahodd i ddigwyddiad lansio'r Adroddiad.

22. Nid oes arian parod ar gael yn lle'r wobr a nodir. Ni ellir negodi na throsglwyddo'r wobr.

23. Byddwn yn hysbysu'r enillydd drwy'r wybodaeth gyswllt a ddarperir ar adeg cyflwyno'r cais. Gallwn anghymwyso unrhyw un sy'n methu ag ymateb i'r hysbysiad o fewn pum diwrnod gwaith.

24. Rydych yn cytuno i gymryd rhan mewn unrhyw gyhoeddusrwydd rhesymol a allai fod yn ofynnol gennym.

25. Os oes unrhyw reswm i gredu bod y Telerau wedi'u torri, gallwn, yn ôl ein disgresiwn llwyr, gadw'r hawl i'ch gwahardd rhag cymryd rhan yn y gystadleuaeth.

26. Rydym yn cadw'r hawl i ddileu, atal, canslo neu newid y wobr neu'r gystadleuaeth pan fydd angen gwneud hynny.

27. Caiff y telerau ac amodau hyn eu llywodraethu gan gyfraith Cymru ac mae'r partïon yn cyflwyno i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.